# DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB YR UNIGOLYN: DDYLUNYDD SAIN – RHAGLEN ALLGYMORTH YSGOLION BALLOON GIRL

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Ddylunydd Sain |
| **PROSIECT:** | *Balloon Girl/ Cardiff Great Exhibition 2026* |
| **NIFER Y DYDDIAU:** | 7.5 |
| **FFI:** | £200 y dydd |
| **DYDDIAD DECHRAU:** | Cyn Gynted â Phosib |

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

## TROSOLWG:

Yn 2026 rydyn ni'n nodi 130 mlynedd ers i Gaerdydd gynnal **Arddangosfa Celfyddyd Gain a Diwydiannol 1896**, arddangosfa ryfeddol, ond sydd wedi'i hanghofio i raddau helaeth, a dathliad mawreddog o arloesedd Fictoraidd a ddenodd dros filiwn o ymwelwyr. Gan ddwyn ysbrydoliaeth o'r digwyddiad hanesyddol yma, mae **Rhaglen Ysgolion Arddangosfa Fawr Caerdydd 2026** yn gwahodd pobl ifanc i ailddarganfod pennod anghofiedig o stori eu dinas, dychmygu dyfodol newydd beiddgar a rhannu eu gweledigaeth drwy gelf, gwaith adrodd straeon a thechnoleg greadigol.

Wrth wraidd y prosiect mae ***Balloon Girl***, cynhyrchiad theatrig newydd gan **Hannah McPake** (Tilting at Windmills Productions), mewn partneriaeth â **Theatr y Sherman**. Bydd y cynhyrchiad yn gweithredu fel catalydd creadigol ar gyfer cynllun uchelgeisiol, gan ennyn diddordeb pobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd—mewn taith chwareus a dychmygus drwy hanes Caerdydd, ei phresennol a'i dyfodol posib. Bydd yn adlewyrchu'r ymdeimlad o drawsnewid a chyfle oedd yn ganolog i Arddangosfa Caerdydd 1896.

Drwy gyfuno hanes ymdrochol gyda'r dyfodol dychmygus, bydd y prosiect yn grymuso disgyblion i ddod **yn adroddwyr straeon**, **yn arloeswyr** ac **yn warcheidwaid treftadaeth Caerdydd**.

Gwnaed Rhaglen AllgymorthYsgolion 'Balloon Girl' yn bosibl gan Gronfa Treftadaeth Loteri Genedlaethol.

## TROSOLWG O'R SWYDD:

Rydyn ni'n chwilio am Ddylunydd Sain i gefnogi'r gwaith o greu cynnwys sain ar draws *Rhaglen Allgymorth Ysgolion Balloon Girl*.

Bydd y swydd yn cyfrannu at y gwaith o siapio byd sonig y prosiect ar draws darpariaeth gweithdai a'r allbynnau creadigol fydd yn cael eu creu gyda phobl ifanc. Mae'r prosiect yn y cyfnod datblygu cynnar ar hyn o bryd, a bydd y Dylunydd Sain yn gweithio'n agos gyda'r tîm creadigol i ddatblygu a gwireddu elfennau sain.

Gallai'r swydd gynnwys:

- Dylunio a chynhyrchu elfennau sain ar gyfer y gweithdy cychwynnol ym mis Mehefin (e.e. sain atmosfferig, ciwiau naratif, elfennau rhyngweithiol)
- Recordio cyfweliadau neu gynnwys llafar gyda phobl ifanc fel rhan o un o weithdai'r rhaglen ym mis Tachwedd fydd yn canolbwyntio ar y dyfodol
- Golygu a siapio sain yn allbynnau creadigol (e.e. straeon sain, darnau sain neu osodweithiau)
- Cydweithio â'r tîm creadigol i gefnogi gwaith adrodd straeon, hygyrchedd ac ymgysylltiad

## PRIF DDIBENION Y SWYDD:

- Cydweithio â'r Prif Hwylusydd a'r tîm creadigol i greu dyluniad sain gwreiddiol a chynnwys sain ar gyfer darpariaeth gweithdai
- Recordio sain ansawdd uchel mewn ysgolion a gweithdai
- Golygu a chymysgu sain i fformatau clir, deniadol a hygyrch
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynnwys wedi'i greu gan gyfranogwyr
- Paratoi sain i'w ddefnyddio ar draws gweithdai, arddangosfeydd a llwyfannau digidol
- Gweithio yn unol â chanllawiau o ran diogelu, cydsyniad a materion moesegol wrth recordio pobl ifanc

## MANYLEB YR UNIGOLYN:

### HANFODOL

- Profiad ym maes dylunio sain, cynhyrchu sain neu gelf sain
- Y gallu i greu profiadau sain sy'n cael eu gyrru gan naratif
- Profiad o recordio a golygu iaith lafar/cyfweliadau
- Y gallu i gydweithio fel rhan o dîm yn ogystal â gweithio'n annibynnol
- Ymrwymiad i gyfle cyfartal ac amrywiaeth ddiwylliannol

## DYMUNOL

- Profiad o weithio ym maes addysg, celfyddydau cyfranogol neu leoliadau cymunedol
- Profiad o greu sain ar gyfer theatr, profiadau ymdrochol neu waith rhyngweithiol
- Diddordeb mewn gwaith adrodd straeon a threftadaeth
- Dealltwriaeth o arferion diogelu wrth weithio gyda phobl ifanc
- Y gallu i weithio'n ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg)

## I WNEUD CAIS:

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y cyfle yma, anfonwch e-bost at *gwen.morris@shermantheatre.co.uk* gan egluro pam mae gennych ddiddordeb yn y swydd a sut y byddai eich profiad yn berthnasol i'r prosiect.

**Dyddiad Cau: 5 Gorffennaf 2026**

Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeiriad yma os oes gennych gwestiynau neu os hoffech siarad â rhywun yn anffurfiol am y swydd. Rydyn ni am i'n tîm adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ledled y de-ddwyrain.

Felly, rydyn ni'n estyn croeso arbennig i ymgeiswyr o gymunedau ethnig amrywiol a chymunedau B/byddar ac anabl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector ar hyn o bryd. Noder, yn unol â'n polisi amgylcheddol, mai dim ond ceisiadau electronig y byddwn yn ymdrin â nhw.